CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 25.03.2010 A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.00PM

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD: Croesawodd y Cadeirydd Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Offrymwyd gweddi gan y Cyng. Greg Evans.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter,
Elsie Dafis (cyrraedd 7.30pm), John Davies,
Margaret Davies-Evans, Greg Evans
Robert (Hag) Harris (cyrraedd am 7.30pm),
Lynda Mason-George (cyrraedd am 7.25pm),
Dorothy Williams (cyrraedd am 7.30pm) &
Derek Wilson.
Y Plismon Richard Marshall (7-8pm)
Mrs Cheryl Jones (7-7.35pm)
Hannah Smith – Gohebydd y Wasg y Cambrian News

YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tref Kistiah Ramaya a Chris Thomas.

1.2 Roedd aelodau'n flin i glywed am farwolaeth mam-yng-nghyfraith y Cyng. Kistiah Ramaya.
Penderfyniad: ***i anfon neges o gydymdeimlad at y Cyng. a Mrs Ramaya.***

1.3 Bydd rhieni-yng-nghyfraith y Maer yn dathlu 70 o flynyddoedd o fywyd priodasol ym mis Ebrill 2010.
Penderfyniad: ***i fynegi dymuniadau gorau ar ran y Cyngor Tref.***

2. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

Bu i'r Gyng. Dorothy Williams ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cynigon am dorri porfa ym Mharc-yr-Orsedd a chynnal a chadw llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Cofnod 10.3.1 a 10.3.2

3. AR DDECHRAU'R CYFARFOD DERBYNIWYD CYFLWYNIAD GAN MRS CHERYL JONES, Cadeiryddes mudiad newydd-gofrestredig sef Cronfa Gancr y Colon-a-Pherfedd, Canolbarth Cymru. Ffurfiwyd yr elusen er cof am ei gŵr Melville, a fu'n anffodus, farw o'r salwch ym Mehefin 2008. Dapara'r elusen help i dioddefwyr o gancr y Colon a Pherfedd. Gallant geisio am gymhorthdal ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd yn ystod unrhyw gyfnod o'u salwch. Clustnodir grantiau yn ôl y galw. Cyn belled, casglwyd £18,000 gan yr elusen. Caiff yr holl arain a godwyd ei ddefnyddio i helpu cleifion, offer gofal iechyd ac hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol byd-iechyd yn yr ardal sy'n cael ei wasanaethu gan Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.
Ar y diwedd diolchwyd i Mrs Jones am ei hanerchiad ac am godi ymwybyddiaeth o'r elusen. Roedd aelodau o'r farn y byddai ei phrofaid yn ei rhoi mewn sefyllfa gref i helpu eraill sy'n wynebu herion tebyg.
Penderfyniad: i wneud cyfraniad o £200.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch materion plismona gan y Plismon Richard Marshall.

4.1 Yr Ardal Gwahardd Alcohol, Llambed. Ystyrir y mater gan Gabinet y Cyngor Sir ar y 13eg o Ebrill 2010. Os derbynnir cymeradwyaeth ganddynt, cyflwynir yr adroddiad gerbron y Cyngor llawn ar ddiwedd Ebrill. Mae'n

ofynnol i osod arwyddion mewn lle cyn y gellir gweithredu'r Gorchymyn. Gofynnodd y Plismon Marshall am gymorth y Cyngor Tref parthed lleoliadau ar gyfer yr arwyddion.

Penderfyniad: i gyflwyno awgrymiadau'n ystod cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

4.2 Adroddwyd at sylw'r heddlu bod cŵn yn baeddu ar Barc St. Germain-sur-Moine.

4.3 Goleuadau Stryd: Penderfynwyd yn ystod cyfarfod y Cyngor Tref o'r 8fed Ionawr 2009 i beidio talu am gynnau goleuadau stryd penodedig mewn ardaloedd preswyl, o 12 Canol Nos i 5am. (mae'r cofnodion ar gael ar safle-ar y-we y Cyngor Tref ac yn Llyfrgell y Dref). Petai'r Cyngor Tref wedi cytuno i'r trefniant hwn byddai'r gost oddeutu £2,500. Serch hynny, cytunodd aelodau ac yn arbennig yr Is-Bwyllgor Goleuadau Stryd i fonitereiddio'r sefyllfa ac i gyd-weithio â'r heddlu i ddarganfod ble fyddai'n debygol bod angen eu hail-gynnau. Penderfynwyd adolygu'r sefyllfa ar ôl cyfnod blwyddyn. Adroddodd y Cyng. Harris wrth aelodau bod ambell un o'r dref wedi mynegi pryder ynglŷn â'r canlyniadau o ddiffodd goleuadau mewn ardaloedd arbennig, sef yn ymwneud â diogelwch. Penderfynwyd cynnig cyfle i'r trigolion dan sylw i dalu am gynnau'r goleuadau o 12canol nos tan 5am ac i'r Cyng. Harris i gydlynu'r prosiect ar ran y Cyngor Tref. Gallai'r gost wahaniaethu o £14 i £45 ar gyfer un lamp yn flynyddol.

4.4 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys: Ymgynghoriad ar Dargedau Cyflogaeth ac Archwiliad Cyfrifon am y flwyddyn sy'n diweddu 31ain Mawrth 2009: er gwybodaeth.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 25AIN O CHWEFROR 2010

Cytunwyd bod cofnodion Chwefror yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Ystyriaeth i'r Rhodd mewn Ewyllys (£11,500): Bu i aelodau ystyried yr opsiynau ar gyfer mudiadau/achosion posibl y gellai elwa o'r rhodd mewn ewyllys. Ni dderbyniwyd y ddau gynnig cyntaf sef trosi'r adeilad sy'n dadfeilio wrth gefn i'r Cyfleusterau'r Gwasanaethau Cymdeithasol presennol ar gyfer Canolfan i'r Ieuenctid a'r ail gynnig sef Datblygu Neuadd Fictoria fel adnodd ar gyfer y gymuned. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn medru ariannu'r prosiect ar gyfer yr ieuenctid ac yn ogystal, nid yw'r swm o arian sydd ar gael, yn caniatau newidiadau o bwys ar gyfer Neuadd Fictoria. Ar ôl trafodaeth ddwys penderfynwyd derbyn y trydydd cynnig a defnyddio'r arian ar gyfer gwelliannau'n ymwneud â Neuadd y Sgowtiaid, Llanbedr Pont Steffan.

6.2 Enwebu cynghorydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB:

Enwebwyd y Gyng. Elsie Dafis i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr CAB. ***Hysbyswyd y CAB ond nid yw'r Gyng. Dafis wedi clywed oddi wrthynt cyn belled. Fe'u hatgofiwyd unwaith yn rhagor.*** Y Cadeirydd newydd yw'r Cyng. Paul Hinge

6.3 Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref: un bin wedi ei osod ym Mharc-yr-Orsedd a'r llall ar Sgwâr y Farchnad.

Penderfyniad: i ddiolch i GSC am ei ymdrechion.

6.4 Clos Glyndŵr:

Arddangos yr Arwydd: Nid oedd datblygiadau pellach parthed y mater. Cynigwyd, eiliwyd a derbyniwyd y byddai pob cyfeiriad dyfodol i'r geiriau *Clos Glyndŵr,* mewn dogfennau'r Cyngor Tref yn cael eu cofnodi fel *Clôs Glyndŵr*, yn ystod y cyfarfod diwethaf h.y. i gynnwys yr acen grom ar yr "o" yng

nghynnwys y gair “Clos”. Ers hynny darganfuwyd bod y ffordd wreiddiol o gofnodi’r gair “Clos” gan Glerc y Dref yn gywir, ac yn cydymffurfio â chyngor Fwrdd yr Iaith Gymraeg. **Penderfyniad: i ddadwneud penderfyniad y cyfarfod cynt ac i gofnodi’r gair *Clos* yng nghynnwys *Clos Glyndŵr* heb yr acen grom ar yr “o”.**

6.5 Problemau Trafnidiaeth Llambed

Ymateb gan GSC ynglŷn â’r fynedfa i Faes-Parcio’r Rookery: Ni fydd newidiadau’n cael eu hymgymryd. Yn ôl y CSC nid yw cynllun y fynedfa’n addas ar gyfer symudiad bysiau a loriau trwm, hir a llwythog. Gallai sefyllfa beryglus godi petai’r cerbydau hyn yn defnyddio’r maes-parcio, oherwydd presneoldeb cerddwyr di-rif gan gynnwys nifer o rieni’n casglu plant ysgol.

Penderfyniad: Y Maer i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i drafod y mater ymhellach. Gofynnir i GSC i roi sylw i leoedd eraill ee o flaen yr hen swyddfeydd y Llywodraeth ar Heol Pontfaen.

Ynglŷn â’r dŵr sy’n cronni o flaen yr Orsaf Ambiwlans, adroddodd CSC nad yw’r darn o dir dan sylw o fewn ei berchnogaeth.

Bu i rai aeloadau fynegi pryder nad oedd atebion wedi dod i law oddi wrth y cyngor sir parthed materion traffig eraill.

6.6 Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr: *Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC ynglŷn â’r* Arwydd Tref Newydd ar Ffîn Sir Gâr/Ceredigion.

6.7 Cod Ymddygiad – Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae Mr Peter Tyndall, Ombudsmon yn ymgynghori ar y canllawiau statudol y mae’n bwriadu eu cyhoeddi o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 parthed Model y Cod Ymddygiad. Byddai’n ddiolchgar pe bai cynnwys y canllawiau drafft yn cael ei rhannu gydag aelodau. Derbynnydd cyntaf: Cyng. Phillips. Ail Dderbynnydd y Gyng. Mason-George 25.02.2010.

6.8 Cyfarfod Ymgynghorol yr Heddlu: 25.02.2010: Penmorfa, Aberaeron. Boed i’r Cyng. Ramaya fynychu’r Cyfarfod. Oherwydd absenoldeb y Cyng. Ramaya gohiriwyd y drafodaeth yn ymwneud â digwyddiadau’r noson, tan y cyfarfod nesaf.

6.9 Disgo Ysgol Ffynnonbedr: 26.03.2010 o 12-2pm: y mae trefniadau ar y gweill.

6.10 Gwefan newydd y Cyngor Tref: Bu i’r Cyng. Phillips a’r Clerc dderbyn hyfforddiant ar sut i weithredu’r safle. Y mae dyfodiad y safle-ar-y-we newydd, dwy-ieithiog, wedi derbyn ymateb positif gan aelodau’r cyhoedd.

6.11 Trefnwyd cyfarfod gan Lowri Thomas, Rheolwraig Golygfa Stryd CSC ar Ddydd Llun 1af o Fawrth am 10am ger y Ffynnon, Sgwâr Harford, Llambed. Rhoddwyd gwahoddiad agored i holl gynghorwyr. Hefyd Cadeirydd y Siambr Fasnach, Mr Chris Saunders. Amcan y cyfarfod oedd trafod y posibilrwydd o wella cyflwr y Ffynnon a’r ardal oddi cwmpas.

6.12 Ymateb gan Mr Roger Clive-Powell parthed y cais i ail-osod y bolard o dan y ffordd bontiog sy’n cysylltu’r Stryd Fawr a maes parcio’r Archfarchnad Sainsbury, o dan hen Neuadd y Dref. Ail-osodir y bolard yn ystod y dyfodol agos.

6.13 Bu i rai aelodau gyfleu eu bod yn teimlo’n oer yn ystod cyfarfodydd y cyngor tref, a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys. Cysylltwyd â’r Ysgrifenyddes Mrs Pat Davies. Gwneir pob ymdrech i ddarparu gwres digonol yn ystod cyfarfodydd dyfodol y Cyngor Tref.

6.14 Y fainc sydd angen ei thrwsio ym Mryn-yr-Eglwys gerllaw’r hen ysgol gynradd. Y Cyng. Derek Wilson yn ymgymryd â’r trefniadau.

6.15 **Tâl ar gyfer yr un oedd yn canu corn**: Dydd Sul y Cofio 8 Tachwedd 2009. I wneud cyfraniad o £25.00.

6.16 **Golau ar gyfer y Senotaff**: i ofyn i Mr Dylan Dudley i drwsio'r golau. (Cyng. D.Williams)

7. GOHEBIAETH

7.1 **Aelodaeth Un Llais Cymru: 2010-11**: i ail-ymaelodi.

7.2 **Wythnos Cynaladwyedd Cymru 17-23 o Fai**: Ll.C.C: er gwybodaeth.

7.3 **Awdurdodau Lleol a Masnach Deg**: gwybodaeth yn ymwneud â Masnach Deg a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Soniodd y Cyng. Rob Phillips am ddiddymiad Cangen Masnach Deg Llambed oherwydd diffyg gwirfoddolwyr. Penderfynwyd i gynnwys y mater yn agenda cyfarfod nesaf y Cyngor Tref, gyda'r bwriad o ail-sefydlu'r gangen Masnach Deg Llambed.

7.4 **Arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd Cymru**: llythyr gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn diolch i'r Cyngor Tref am ei sylwadau cychwynnol.

7.5 **Dau gopi (CC)** oddi wrth Mrs Dorothy Lloyd, Llywydd Sefydlaid y Merched (SYM), Llambed o'r llythyr a anfonwyd at GSC yn sôn na allai SYM barhau â'r trefniant o gynnal a chadw'r gwelyau blodau'r Rookery. Hefyd yn mynegi pryder parthed y sbwriel a deflir ar y llwybr sy'n arwain drwy fynwent Eglwys San Pedr. ***I gydnabod y llythyr***. Y mae gwybodaeth cynt a dderbyniwyd gan y Cyngor Tref yn awgrymu mai cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw cynnal a chadw'r llwybr.

7.6 **Bynting ar gyfer y dref i ddathlu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010: *caiff ymholiadau pellach eu hymgymryd.***

7.7 **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

8. CYNLLUNIO

8.1 **GWRTHODWYD CANIATÂD CYNLLUNIO GAN GYNGOR SIR CEREDIGION AR GYFER Y CAIS CANLYNOL**

Dyddiad yr hysbyswyd y CT gan GSC	**Ymgeisydd**	**Lleoliad / *Bwriad i***
18.03.2010 Rhif y Cais: A040850	*Peterwell Cyf* *d/l 34 Ffordd y Môr* *Aberystwyth* *Ceredigion* *SY23 1EE*	Plot OS 4800 yn mynd o Heol y Wîg, Llambed Cyfeirnod grid (257453, 249090) Datblygiad preswyl (tua 9 annedd)

Nid yw Heol y Sir Dosbarth 3 (C1038) a fydd yn gwasanaethu'r safle, a'i chyffordd â'r Brif Heol y Sir (A482) yn cydfynd â'r canllawiau a grybwyllwyd yn "All Wales Estate Development Highways Design Guide" a'r "Polisi Cynllunio Cymru TAN 18 Trafnidiaeth". Nid yw'n bosibl i'r tir ym meddiant yr ymgeisydd gwrdd â'r gofynion hyn. Fel canlyniad ni fydd yr anheddau arfaethedig yn manteisio o fynedfa ac adnoddau parcio addas. Byddai darpariaeth annigonol yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, rhwydwaith mewnol ac ar gyfer yr anabl. Y mae'r cais felly'n wrthwyneb i Bolisi H3 o'r Cynllun Datblygu a Pholisiau GEN 4.1 a H1.2A o'r Cynllun Datblygu Unedol.

8.2 **Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Cofnodion 10.02.2010 ac Agenda y cyfarfod 10.03.2010: er gwybodaeth.

8.3 **Y mae Nathaniel Lichfield a Phartneriaid** yn gweithio ar ran Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd ac yn ymwneud ag adolygiad o'r safleoedd posibl i'w defnyddio at ddibenion cyflogaeth.
Y Maer wedi ateb y cwestiynau ar ran y Cyngor Tref.

9. CYLLID

9.1 **INCWM: Mawrth 2010: £15,000** *Cynllun Rhoi Arain yn ôl i'r Gymuned* 2009-10.

9.2 **Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor Tref** am gyfraniadau diweddar oddi wrth Gymdeithas Cerdd Llambed a Chymdeithas Sgowtiaid Llambed.

9.3 **Asesiad Risg** yn ystod y flwyddyn 2009-10: cafodd yr asesiad risg a luniwyd gan y Clerc, ei dderbyn gan y Cyngor Tref.

9.4 **GWARIANT MAWRTH 2010**

Eitem	**Tâl**
Sgowtiaid Llambed	£11, 500.00
Cronfa Gancr Colo-Perfedd Canolbarth Cymru	£ 200.00
Ysw Joshua Yardley – canu corn – Dydd Sul y Cofio	£ 25.00
Hirio Neuadd San Pedr x3awr 25.03.2010	£ 26.25
Cyflog Y Clerc Mawrth 2010 net	£ 536.70
Treth Incwm a Chyf. YC Mawrth	£ 97.40
Golau/Gwres/storio Mawrth 2010	£ 20.00
Cwmni Cydweithredol Troedrhiw Cyf	£ 50.00
Aelodaeth Blynyddol Un Llais Cymru	£ 279.00
Gosod i fyny 2 arwydd newydd Parc St. Germain-sur-Moine CSC £110 TAW £19.25	£ 129.25
Mr Frank Sisto – gwastadu arwynebedd ar Gae Maesyderi £3,882; TAW £679.35	£ 4,561.35
Mr. Malcolm Miller – 5 mainc picnic ar gyfer cae Maesyderi £120 yr un + TAW (£105)	£ 705.00
3 awr hyfforddiant CWN Design Mr Chris Saunders £150 TAW £26.25	£ 176.25
Mr Steve Edwardes – gwelliannau ym Mharc-yr-Orsedd	£ 620.00
Gwaddod – Cae Maesyderi – Mr Evans Penrhiwllan	£ 280.00
SWALEC Goleuadau Nadolig £894.15; TAW £134.12	£ 1,028.27

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 GOLEUADAU STRYD

10.1.1 **Dywedodd y Gyng. Davies-Evans wrth aelodau** bod un golau'n dal yn ddiffygiol ar y Cwmin: **I adrodd at sylw'r Cyngor Sir.**

10.1.2 **Croes-gyf i Gofnod 4.3** (Diffodd goleuadau penodedig o 12 Canol Nos i 5am CSC)

10.2 PALMANTAU

10.2.1 **Cytunodd y Gyng. D.Williams, yn ystod y cyfarfod diwethaf** i gyflwyno rhestr, i gynnwys yr holl broblemau'n ymwneud â phalmantau'r dref, yn ystod y cyfarfod hwn *(dim datblygiadau cyn belled*) .

10.2.2 **Adroddwyd bod dŵr** yn gollwng ar balmant ger y siop sy'n gwerthu blodau sef *Cascade,* ar y Stryd Fawr yn ystod y cyfarfod cynt– Y mae *Dŵr Cymru* wedi datrys y broblem.

10.2.3 **Y mae problemau'n bodoli** ar y palmant gerllaw Siop Gwilym Price a'r Deintyddfa***. I adrodd at sylw'r Cyngor Sir.***

10.3 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

10.3.1 Parc-yr-Orsedd: Derbyniwyd 3 amcan-bris parthed torri'r porfa ym Mharc-yr-Orsedd dros fisoedd yr haf (Ebrill i Fedi gan gynnwys y ddau fis). Derbynia'r Clerc nifer o ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd gan fod rhif ffôn y Cyngor Tref yn ymddangos ar y ddau arwydd sy'n bodoli ym Mharc-yr-Orsedd ee ynglŷn â gwydr a photeli wedi eu torri yn yr ardal chwarae a hefyd gan ddarpar ymgeiswyr pan yn ceisio gwybodaeth pellach parthed y disgrifiad gwaith, cyn cyflwyno amcanbris. Y mae'r ddau arwydd hefyd yn gwahardd cŵn rhag defnyddio'r parc. Cafodd Parc-yr-Orsedd ei gynnwys o fewn y rhestr a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir yn gofyn am waharddiad ar gŵn ar gyfer holl barcau-chwarae'r dref. Byddai cymorth Warden Ci o fudd hefyd.

Y mae rhai aelodau'r cyhoedd o'r farn y dylid cyflogi ceidwad ar gyfer y parc drwy gydol y flwyddyn, o ran iechyd, diogelwch ac i gynnal a chadw'r parc (chwynnu, casglu dail, sbwriel ayyb) yn hytrach na'r trefniant presennol lle ond cyflogir megis un person i dorri gwair unwaith y mis am 6 mis y flwyddyn. Caiff gwaith gorfodol angenrheidiol ei gyflawni ar hap ee tocio'r berth. Byddai hyn yn ymwared â'r cais am wirfoddolwyr, sydd heb fod yn llwyddiant yn ystod y gorffennol ee wrth baratoi ar gyfer y gystadleuaeth *Mewn Blodau* a'r Lansiad Offer Cadw'n Heini Mis Ebrill 2009.

<u>Cynigion ar gyfer Parc-yr-Orsedd</u>

1. **Mr Mike Brown, Caerfoel, Cribyn:** Trwydded, Yswiriant ac Hyfforddiant Llawn mewn lle. Y cynnig i gynnwys torri'r gwair 6 tro rhwng Ebrill a Medi 2010. Toriadau i'w cludo i ffwrdd. Pris y Cynnig: £300.
2. **Mr Eirwyn Williams**, Blodfryn, Llanbedr PS: Polisi Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus mewn lle. Un toriad y mis o Ebrill i Fedi gan gynnwys y ddau fis. Toriadau i'w cludo i ffwrdd. Cynnig £510.
3. **Mr Lyn Jones, Lakefield,** Llanybydder, Polisi Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus £5,000,000. 10 toriad rhwng y misoedd o Ebrill tan Medi. Defnyddir y peiriant a gelwir ym mylcher. Cynnig £500.

Ystyriwyd y 3 cynnig. Eglurwyd y cysyniad o "myltsio". Y mae'r toriadau gwair yn cael eu torri i fyny'n ddarnau mân sy'n cael eu hamsugno i'r tir ac yn adnewyddu maeth gwerthfawr i'r pridd. Bu i'r Cyngor Tref wrthod y cynnig hwn sydd o fudd i'r amgylchedd, gan fod ychydig aelodau o'r farn na wareder â'r baw cŵn o dan y drefn hon. Gallai fod yn berygl iechyd, yn enwedig i blant.

Cynigwyd, eiliwyd a derbyniwyd cynnig Mr Brown
(pleidleisiodd holl aelodau dros y cynnig ond eithrio un, sef un atalaid)

10.3.2 Cynnal a Chadw Llwybrau Cerdded dros fisoedd yr haf

Mae'r gwaith a gariwyd allan yn ystod y gorffennol wedi ei seilio ar lefel y grant a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion o dan y Cynllun Llwybrau Cymunedol ee y llynedd clustnodwyd £650. Efallai y byddai angen gwaith ar lwybrau, na ariennir o dan y cynllun. Byddai'n anghenrheidiol i'r Cyngor Tref i gwrdd â'r gost ychwanegol. Y mae rhai darpar ymgeiswyr wedi awgrymu y byddai'n well ganddynt gyflwyno cynnig am y gwaith yn ei gyfanwedd, yn hytrach nag ar raddfa feunyddiol.

Cynigion ar gyfer Cynnal a Chadw Llwybrau Cerdded

1. **Mr Mike Brown, Caerfoel, Cribyn**
   Gwaith tocio/torri llwyni a changhennau a choed sy'n plygu dros y llwybrau ayyb yn unol â chais y Cyngor Tref £230 ar gyfer 2 berson ar gyfer un dydd.
2. **Mr Eirwyn Williams, Blodfryn, Llanbedr PS**
   Cynnal a chadw llwybrau ar raddfa feunyddiol o £90.00
3. **Mr Lyn Jones, Lakefield, Llanybydder**: £90 yn feunyddiol.

Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn cynnig Mr Eirwyn Williams.

Holodd y Gyng. Barton tybed a fyddai'n bosibl mewn cyfarfod y dyfodol i ystyried cyflogi ceidwad ar gyfer Parc-yr-Orsedd. Ni wnaethpwyd penderfyniad petai'r Cyngor Tref yn newid y Swydd Ddisgrifiad ar gyfer yr amcanbris ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau ar gyfer y dyfodol. Hefyd ni phenderfynwyd petai'r gwaith yn ymwneud â'r llwybrau ym 2010 yn cael ei gyfyngu i lefel y grant.

10.3.3 Mae'r mwyafrif o'r gwelliannau ym Mharc yr Orsedd fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau diweddar, a sydd wedi eu cynnwys mewn cofnodion cynt, wedi eu cyflawni yn ôl y llythyr a dderbyniwyd gan y Cyng. Chris Thomas. **Heb eu cyflawni –** ***magl ar gyfer y gât ar Heol y Gogledd i atal plant bach rhag rhedeg allan i'r heol, trwsio'r offer ymarfer corff; a thrwsio'r gât ar y fynedfa ar yr ochr i'r parc a gyferbyn â Neuadd Fictoria.*** Penderfynwyd gosod ceffyl pren newydd yn y parc gan y gwaredwyd â'r hen geffyl pren oherwydd ei gyflwr truenus.

10.4 CAMERAU TCC

10.4.1 Adroddiad Misol ar gyfer Chwefrior 2010 CSC: bu yna 8 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol a 4 cais am ddisgiau copi yn ymwneud â 2 ddifrod troseddol, 3 lladrad, ysgarmes, eiddo coll a gyrrwr heb gymwysterau.

10.5 ADOLYGIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG: wedi ei gyflawni.
I hysbysu Bwrdd yr Iaith a'r wasg leol.

10.6 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
Cynhelir cyfarfod ar y 7fed o Ebrill. (cofnodion ynghlwm)

11. U.F.A.

11.1 Atgyweiriwyd yr hysbysfwrdd yn ddiweddar. Holodd y Gyng. Williams tybed a fyddai'n bosibl i drwsio darn pren yr hysbysfwrdd sydd ar frig y drysau gwydr. ***Y Cyng. Wilson i ymgymryd â'r gwaith.***

11.2 Cyhoeddodd y Maer y byddai *Cinio Ymadael y Maer* yn cael ei gynnal yn ystod mis Ebrill yng ngwesty'r *Llew Du*. Byddai'n hysbysu aelodau o'r dyddiad, amser a'r fwydlen maes o law.

11.3 Adroddodd y Cyng. Phillips y byddai Pwyllgor y Pwll Nofio yn cymryd rhan yn y Prosiect Peilot Ysgol 3-19 sy'n cyfuno Ysgol Ffynnonbedr, Ysgol Gyfun Llambed a'r Pwll Nofio ar un campws i rannu adnoddau ac arbenigedd.
Bydd y cyfnod prawf yn parhau ystod blwyddyn o Fedi 2010 i Awst 2011. Cyflwynir system newydd o ariannu'r pwll o dan y drefn hon.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.15pm.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Nos Iau 29ain o Ebrill am 7:00pm yn Neuadd yr Eglwys Llanbedr PS.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)